**Dydd Gŵyl Dewi 2022**
St David's Day 2022

# Pethau Bychain.

**#PethauBychain**
#RandomActsofWelshness

# Dydd Gŵyl Dewi – ein diwrnod cenedlaethol i ddathlu ein nawddsant trwy 'wneud y Pethau Bychain' sydd yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Ymunwch â ni, trwy wneud **#PethauBychain** hwyliog a charedig sydd yn gwneud ein bywydau bob dydd yn well.

# Dathliad o Gymru ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n llonni ac yn ysbrydoli. Neges gan Dewi — o Gymru i'r byd.

Dyma wahoddiad i ymuno â ni i ddathlu ein diwrnod cenedlaethol drwy wneud eich peth bach Cymreig eich hun, a'i rannu ar gyfryngau cymdeithasol.

**Beth yw'r Pethau Bychain?**
Dangos i'r byd bod Cymru yn genedl llawn hwyl. Gwlad gynnes, gyfeillgar sy'n gwneud pethau da – dros ein gilydd, dros ein cymunedau a'n byd.

Mae'r Pethau Bychain yn:

— hawdd i'w gwneud, ac yn gwneud gwahaniaeth mawr;
— dathlu ein pobl ac ein traddodiadau;
— ac, yn fwy na dim, mae'n gwneud diwrnod rhywun ychydig yn well.

Byddwn yn rhannu degau o'r **#PethauBychain** rhain yn y cyfnod cyn 01 Mawrth i'ch ysbrydoli.

# Pethau Bychain i'ch ysbrydoli...

**Hiraeth**
Codwch y ffôn neu ewch i ymweld â hen ffrind. Cysylltwch â Chymry sy'n byw dramor.

**Dewis Dysgwr**
Dewch yn gyfaill i siaradwr Cymraeg newydd. Sgwrsiwch dros y ffôn neu dros baned i rannu gair neu ddau yr wythnos.

**Prynwch beint i Dewi***
*mae Dafydd neu Dai hefyd yn cyfri, a Non wrth gwrs (i ddathlu mam rhyfeddol Dewi Sant). Iechyd da!

**Ewch yn ôl at eich coed**
Plannwch hedyn i'r dyfodol. Un goeden ar y tro – i Gymru, a'r byd.

**Gwisgwch genhinen**
'Gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg hi yn dy galon' – ein cenhinen genedlaethol ac eitem ffasiwn cŵl i'w binio ar het neu siwmper. I fod hyd yn oed fwy Cymreig – bwytwch y genhinen ar ddiwedd y dydd!

**Pice bychain**
Picau ar y maen, pice bach, cacennau cri, teisennau gradell - beth bynnag ydych chi'n eu galw, mae nhw'n lysh. Gwnewch rai i'w rhannu.

**Dathlu'r Ddraig Goch**
Baner Cymru yw'r gorau yn y byd. Ffaith. Cofiwch chwifio'r faner â balchder, ble bynnag yr ydych.

**Dawnsio**
Dawnsiwch fel Cymro – estynnwch am eich clocsiau, neu sgipiwch eich ffordd i'r twmpath agosaf.

**Cynganeddu**
Anghofiwch Gairglo... dyma'r gêm geiriau wreiddiol. Llusg, croes, traws sain ... Rhowch dro arni.

**Rhowch flodyn**
Gwobr aur am ddewis Cennin Pedr. Be well i roi i rywun ar ein diwrnod cenedlaethol nag ein blodyn cenedlaethol?

**Canu**
Ni yw gwlad y gân, wedi'r cwbl. Canwch yr anthem nerth eich pen mewn lleoliad anarferol, neu am bwyntiau bonws, dysgwch yr ail a thrydydd pennill.

# O'n bro i'r byd – helpwch ni i droi'r byd yn Gymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda 24 awr o Bethau Bychain.

Ble bynnag yr ydych yn y byd, ymunwch â ni i ddathlu ein diwrnod cenedlaethol.

**O 23 Chwefror**

**1. Dewiswch!**
Ffilmiwch neu tynnwch lun o'ch **#PethauBychain** yn barod ar gyfer y diwrnod mawr. Os oes gennych chi gynlluniau ar y gweill, anfonwch e-bost atom – lowri.jones37@llyw.cymru.

**2. Bloeddiwch!**
Rhannwch y ddogfen gyda ffrindiau, cydweithwyr, sefydliadau a gofynnwch iddynt gymryd rhan.

**3. Rhannwch!**
Cadwch lygad allan am gynnwys ein hymgyrch ar **@walesdotcom** a **@croesocymru** ar draws y cyfryngau cymdeithasol – a chofiwch hoffi a rhannu.

**Ar 01 Mawrth**

**4. Postiwch!**
Rhannwch eich **#PethauBychain** ar 01 Mawrth gan ddefnyddio **#PethauBychain** a **#RandomActsofWelshness** a thagiwch **@walesdotcom** a **@croesocymru** drwy'r dydd. Os ydych chi'n teimlo'n arbennig o Gymreig, does dim angen cyfyngu eich hunnain i un!

# Diolch.

**#PethauBychain**
#RandomActsofWelshness